**GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**175 - Rheoliadau Plaladdwyr (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**
*Gosodwyd yn Senedd y DU: 08 Hydref 2020*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Y weithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh. |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh. |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh. |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 79 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Ddim yn ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh. |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | 21/10/2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Ddim yn hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 20/10/2020 |

**Cefndir**
Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf hon.

**Crynodeb**
Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE cynharach sy'n trosi deddfwriaeth yr UE (sy'n ffurfio cyfundrefnau rheoleiddio cynnyrch diogelu planhigion ("PPP") a'r lefel gweddillion uchaf ("MRL") yn gyfraith genedlaethol, gan adlewyrchu pryd y daw cyfraith yr UE i ben a chan gadw cyfraith yr UE i rym ar ddiwedd y cyfnod gweithredu, gan sicrhau felly y bydd y gyfundrefn genedlaethol yn gweithredu'n effeithiol. Mae angen y rhan fwyaf o'i welliannau oherwydd deddfwriaeth newydd yr UE sydd wedi dod i rym yn fuan cyn ac yn ystod y cyfnod gweithredu, ac felly ni chafodd sylw gan

OSau Ymadael â'r UE cynharach. Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn gwneud diwygiadau o ganlyniad i Brotocol Gogledd Iwerddon lle bydd cyfundrefnau PPP ac MRL yr UE yn parhau i fod yn gymwys, felly mae angen newidiadau deddfwriaethol i ddileu Gogledd Iwerddon o ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir fel bod y gyfundrefn PPP ac MRL newydd yn gymwys ym Mhrydain Fawr yn unig, yn hytrach na ledled y DU.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 13 Hydref 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Ym marn y Cynghorwyr Cyfreithiol, nid oes unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a sefydlu fframweithiau cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.